

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Aseiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2023

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Aseiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2023 mewn perthynas â gosod ffioedd am ofal a chymorth cymdeithasol o dan Ran 4 a Rhan 5 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

25 Ionawr 2023

RHAN 1 - TROSOLWG

1. Disgrifiad

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y "Ddeddf") yn dwyn ynghyd ddyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol mewn perthynas â gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofaluwr sydd angen cymorth. Mae'r Ddeddf yn darparu'r sylfaen, ynghyd â rheoliadau a chodau ymarfer a wneir oddi tani, ar gyfer fframwaith statudol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol yng Nghymru i gefnogi pobl o bob oed fel rhan o deuluoedd a chymunedau.

O dan y Ddeddf mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i osod ffioedd am y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu neu'n eu trefnu i berson, neu'r cymorth y maent yn ei ddarparu neu'n ei drefnu i ofalwr. Mae ganddynt hefyd ddisgresiwn i osod cyfraniad neu ad-daliad ar gyfer taliadau uniongyrchol y maent yn eu darparu i berson i'w alluogi i drefnu ei ofal a'i gymorth ei hun. Mae hyn yn berthnasol i ofal a chymorth yng nghartref y person, yn y gymuned, neu mewn gofal preswyl. Os yw awdurdod yn dymuno arfer y disgresiwn hwn i osod ffi, cyfraniad neu ad-daliad, mae rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn rheoli'r trefniadau sy'n berthnasol i hyn.

Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 "y Rheoliadau Gosod Ffioedd" yn llywodraethu awdurdodau lleol o ran defnyddio eu disgresiwn i osod ffi, cyfraniad, neu ad-daliad o dan Ran 4 (diwallu anghenion) a Rhan 5 (Gosod Ffioedd ac asesiad ariannol) o'r Ddeddf. Daeth y rhain i rym ar 6 Ebrill 2016. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 "y Rheoliadau Asesiad Ariannol" yn nodi'r dull y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i gynnal asesiad o adnoddau ariannol person er mwyn penderfynu ar ffi lle y bo hynny'n briodol.

Ers hynny, cytunwyd ar nifer o newidiadau polisi a oedd yn golygu bod gofyn diwygio'r canlynol:

Rheoliadau Gosod Ffioedd – Y rheoliadau diwygio sy'n rhoi effaith i'r newidiadau hynny yw: Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygio) (Cymru) 2017 a ddaeth i rym ar 10 Ebrill 2017; Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2018 a ddaeth i rym ar 9 Ebrill 2018; Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 a ddaeth i rym ar 8 Ebrill 2019; Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) a Rheolau Cofrestru Tir (Diwygiadau Amrywiol) 2020 a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2020; Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2021 a ddaeth i rym ar 12 Ebrill 2021 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 a ddaeth i rym ar 11 Ebrill 2022.

Rheoliadau Asesiad Ariannol - Y rheoliadau diwygio sy'n rhoi effaith i'r newidiadau hynny yw: Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygio) (Cymru) 2017 a ddaeth i rym ar 10 Ebrill 2017; Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2019 a ddaeth i rym ar 8 Ebrill 2019 a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2022 a ddaeth i rym ar 11 Ebrill 2022.

Mae'n rheoliadau y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â hwy yn ofynnol er mwyn diweddarau'r Rheoliadau Gosod Ffioedd i adlewyrchu cynnydd yn y swm o arian sy'n gymwys i bobl sy'n cael gofal a chymorth cymdeithasol preswyl er mwyn diweddarau'r Rheoliadau Asesiad Ariannol i adlewyrchu nifer o gynlluniau cymorth ariannol newydd sydd wedi dod i rym ers i'r rheoliadau hyn gael eu diweddarau ddiwethaf, ac i roi eglurder pellach ynghylch rhai o'r cynlluniau iawndal presennol sydd wedi eu cynnwys ar hyn o bryd o dan y rheoliadau.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi gwneud rheoliadau mewn perthynas â gosod cyfraniad neu ad-daliad am daliadau uniongyrchol wedi eu cynnwys yn Rhan 4 (adrannau 50, 52 a 53(3)) o'r Ddeddf. Mae pwerau sy'n galluogi Gosod Ffioedd am ofal a chymorth, a chymorth i ofalwr, wedi eu cynnwys yn Rhan 5 (adran 61) o'r Ddeddf. Mae'r pwerau sy'n galluogi gwneud rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau ariannol o ran Gosod Ffioedd wedi eu cynnwys yn Rhan 5 (adrannau 64(1) a 65) o'r Ddeddf.

Mae'r rheoliadau diwygio hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Byddant yn dod i rym ar 10 Ebrill 2023.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben cyffredinol y rheoliadau diwygio yw gwneud newid i'r rheoliadau presennol i gyflwyno cynnydd i'r isafswm incwm wrth osod ffioedd am ofal preswyl ac i adlewyrchu darnau newydd o ddeddfwriaeth ynghylch cynlluniau cymorth ariannol. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 "y Rheoliadau Gosod Ffioedd" yn llywodraethu dyfarniad awdurdodau lleol ynghylch y ffi a osodir am ddarparu neu drefnu gofal a chymorth, neu gymorth i ofalwr, pan fônt yn defnyddio eu disgresiwn i osod ffi. Maent hefyd yn llywodraethu dyfarniad awdurdodau ynghylch cyfraniad neu ad-daliad i berson sy'n derbyn taliadau uniongyrchol i sicrhau ei ofal a'i gymorth ei hun, neu i ofalwr sy'n sicrhau ei gymorth ei hun, pan fo awdurdodau yn defnyddio'u disgresiwn i osod y rhain. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 y "Rheoliadau Asesiad Ariannol" yn llywodraethu asesiad awdurdodau lleol o adnoddau ariannol person i allu talu ffi.

Bydd y newidiadau sy'n diwygio'r Rheoliadau Gosod Ffioedd yn:

- Cynyddu, o £35.00 yr wythnos i £39.50 yr wythnos, lefel yr isafswm incwm a gymhwysir wrth osod ffi am ofal preswyl, neu wrth osod cyfraniad neu ad-daliad am daliadau uniongyrchol i sicrhau gofal preswyl. Gwneir hynny drwy ddiwygio rheoliadau 13 a 28. Yr isafswm incwm yw'r swm o arian y mae pobl sydd mewn gofal preswyl, ac sy'n cael cymorth ariannol gan eu hawdurdod lleol, yn gallu ei gadw o'u hincwm wythnosol i'w wario ar eitemau personol yn ôl eu dewis. Caiff y swm ei adolygu'n flynyddol yng ngoleuni'r cynnydd wythnosol a gymhwysir i bensiynau a budd-daliadau lles gwladol y DU.

Bydd y newidiadau sy'n diwygio'r Rheoliadau Asesiad Ariannol yn:

- Cydnabod nifer o gynlluniau cymorth ariannol newydd a ddyfernir an Lywodraeth y DU i bobl i ddarparu cymorth â ffocws i unigolion ac aelwydydd i'w cefnogi yng nghydestun y pwysau costau byw presennol sy'n deillio o gynnydd mewn prisiau ynni. Mae'r cynlluniau hyn yn ddarnau newydd o ddeddfwriaeth sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU mewn meysydd nad ydynt wedi eu datganoli.
- Cyflawnir hyn drwy ddiwygio Atodlen 2 i'r Rheoliadau Aseiad Ariannol er mwyn cynnwys:
 - Taliadau a wneir o dan y Cynllun Cymorth Biliau Ynni (EBSS)
 - Taliadau Incwm Isel neu Gostau Byw i'r Anabl a wneir o dan Ddeddf Nawdd Cymdeithasol (Taliadau Ychwanegol) 2022

Yn ogystal â'r diystyriadau newydd a nodir uchod, mae'r cynlluniau iawndal presennol canlynol, a ddiystyrwyd yn flaenorol mewn rheoliadau o dan baragraff 20(1) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Aseiad Ariannol, bellach wedi eu rhestru ar wahân i roi eglurder i'r defnyddiwr:

- taliad Tŵr Grenfell,
- taliad camdriniaeth plant,
- taliad Windrush o dan Ddeddf Cynllun Iawndal Windrush (gwariant) 2020,
- taliadau a wneir gan Ymddiriedolaeth y Plant Mudol o dan y cynllun ar gyfer cyn-blant mudol Prydeinig.

5. Ymgynghori

Nid oes angen ymgynghori ar ddiwygio'r Rheoliadau Gosod Ffioedd. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar egwyddor y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan y rheoliadau diwygio i'r Rheoliadau Gosod Ffioedd rhwng 21 Rhagfyr 2016 a 25 Ionawr 2017. Nid yw'r newidiadau yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru; eu diben yn hytrach yw diweddarau rheoliadau i adlewyrchu'r cynnydd a gymhwysir i bensiynau a budd-daliadau gwladol. Gan hynny, ni chynhelir ymgynghoriad o'r fath yn flynyddol.

Nid oes angen ymgynghoriad ar ddiwygio'r Rheoliadau Aseiad Ariannol. Gallai diwygiadau o ran y diystyriadau newydd sy'n deillio o newidiadau ym mholisi Llywodraeth y DU mewn meysydd sydd heb eu datganoli effeithio ar nifer bach o unigolion, ac nid yw hyn yn adlewyrchu newid ym mholisi Llywodraeth Cymru. Dim ond addasiad technegol yw'r newidiadau i'r rheoliadau, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'n gywir y cynllun cymorth ariannol a nodwyd uchod i wneud yn siŵr bod bod unrhyw ddyfarniadau a wneir i unigolion yn cael eu diogelu rhag y drefn Gosod Ffioedd gofal a chymorth.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Cyflwyniad

Mae'r newidiadau sy'n adlewyrchu diystyriadau newydd, neu addasiadau technegol i gyfradd swm yr Isafswm Incwm, a gyflwynir gan y rheoliadau diwygio, yn cael eu hystyried yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ymdrin â'r newidiadau hynny i'r rheoliadau nad ydynt ond yn rhoi eglurder ynghylch diystiriadau sy'n bodoli eisoes fel y nodir yn rhan 1.

Bydd cyflwyno'r newidiadau newydd yn sicrhau bod y Rheoliadau Codi Ffioedd a'r Rheoliadau Asesiad Ariannol, a'r cod ymarfer cysylltiedig, yn gyfredol ac yn gallu gweithredu'n effeithiol.

ISAFSWM INCWM Opsionau a Manteision

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn mewn perthynas â gwneud y newidiadau hyn:

- Opsion 1 – “gwneud dim” a pheidio â gwneud y rheoliadau diwygio;
- Opsion 2 – “gwneud y rheoliadau diwygio” i gyflwyno newidiadau i'r Rheoliadau Codi Ffioedd mewn perthynas â chodi ffi am ofal a chymorth. Dyma'r opsiwn a ffefrir.

Cefndir

Pan fo person mewn gofal preswyl, ac yn cael cymorth ariannol gan ei awdurdod lleol tuag at gost ei ofal, mae'n ofynnol iddo gyfrannu'r rhan fwyaf o'i incwm wythnosol tuag at y gost hon. Fodd bynnag, o dan y Rheoliadau Codi Ffioedd, rhaid i berson allu cadw swm o'i incwm i'w wario ar eitemau personol fel y mynna. Gelwir hyn yn Isafswm Incwm. Caiff lefel yr Isafswm Incwm ei hadolygu'n flynyddol i ystyried codiadau blynyddol i daliadau pensiwn y wladwriaeth y DU a budd-daliadau lles, sy'n sail i incwm wythnosol preswylwyr cartrefi gofal. Gan ystyried y codiadau hyn, mae Gweinidogion yn cynnig cynyddu'r Isafswm Incwm o 10 Ebrill 2023 ymlaen o'i lefel bresennol, sef £35.00 yr wythnos, i £39.50 yr wythnos. Bydd hyn yn caniatáu i breswylwyr gadw swm ychydig yn uwch o'u hincwm i'w wario fel y mynnant ar eitemau personol.

Opsion 1 – gwneud dim

Mae'r opsiwn hwn yn cynnal lefel yr Isafswm Incwm ar £35.00 yr wythnos. O ganlyniad, bydd yr holl gynnydd yn incwm wythnosol preswylwyr o fis Ebrill 2023 ymlaen o ganlyniad i'r codiad yn ei daliadau pensiwn y wladwriaeth a'i fudd-daliadau lles o fudd i'w awdurdod lleol ar ffurf incwm ffioedd i dalu tuag at ei ofal.

- **Costau**

Nid oes unrhyw oblygiadau cost newydd i lywodraeth leol o dan opsiwn hwn. Yn hytrach, byddai awdurdodau yn cael hyd at tua £12 miliwn y flwyddyn mewn cyfraniadau uwch gan y 16,144 o breswylwyr cartrefi gofal dros oedran pensiwn y wladwriaeth fel y cofnodwyd mewn data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2019 (nid oes data o'r fath wedi'u casglu ers hynny). Byddai hyn o ganlyniad i'r incwm uwch y byddai gan breswylwyr yn sgil y codiadau yn swm (£14.35 yr wythnos) pensiwn sylfaenol y wladwriaeth yn unig. Ni fyddai preswylwyr yn y sefyllfa hon yn cadw unrhyw faint o'r codiad a gyflwynir.

- **Manteision**

Ni fyddai unrhyw fanteision i breswylwyr cartrefi gofal a gefnogir gan eu hawdurdod lleol gan na fyddent yn gallu cadw unrhyw faint o'r cynnydd a gyflwynir i'w pensiwn y wladwriaeth. Ni fyddai'r rhai sy'n cael cynnydd i unrhyw fudd-dal lles y maent yn ei gael yn cael budd ychwaith. Yn hytrach, byddai'r arian hwn yn cynyddu cyfraniadau wythnosol

preswylwyr i awdurdodau lleol am gost eu gofal, gan fod o fudd i'r ffrwd incwm y mae awdurdodau yn ei chael gan breswylwyr cartrefi gofal a gefnogir.

Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio

O dan yr opsiwn hwn, byddai'r rheoliadau diwygio yn cael eu gwneud i gynyddu'r Isafswm Incwm o'i lefel bresennol, sef £35.00 yr wythnos, i £39.50 yr wythnos. Byddai hyn yn caniatáu i breswylwyr a gefnogir gan awdurdodau lleol gadw tua thraean o'r codiad y maent yn ei gael i'w wario ar eitemau personol fel y mynnant.

- **Costau**

O dan yr opsiwn hwn, byddai awdurdodau lleol yn cael cynnydd llai mewn incwm ffioedd, nag y byddent pe na bai'r rheoliadau'n cael eu gwneud, o tua £8.3 miliwn y flwyddyn drwy gyfraniadau gan y 16,144 o breswylwyr dros oedran pensiwn y wladwriaeth yn unig. Byddai hyn o ganlyniad i'r incwm uwch y byddai preswylwyr yn ei gael yn sgil y codiadau ym mhensiwn y wladwriaeth. Byddai preswylwyr yn cadw cyfran (gyda'i gilydd tua £3.7 miliwn y flwyddyn) o'r codiad hwn i'w gwario ar eitemau personol fel y mynnant.

- **Manteision**

Mae'r opsiwn hwn yn rhannu'r incwm uwch y byddai preswylwyr a gefnogir gan awdurdod lleol yn ei gael o fis Ebrill 2023 ymlaen o ganlyniad i godiadau i'w taliadau pensiwn y wladwriaeth. Byddai preswylwyr yn y sefyllfa hon yn gallu cadw £4.50 yr wythnos o'r codiad hwn i'w wario ar eitemau personol, tra byddai awdurdodau'n cael y gweddill mewn cyfraniadau uwch gan breswylwyr tuag at gost eu gofal. Hefyd, byddai cynnydd yn yr Isafswm Incwm yn lleihau effaith y cynnydd diweddar mewn costau byw ac yn sicrhau nad yw gwerth yr Isafswm Incwm yn cael ei erydu mewn termau real.

Casgliad

O ystyried y budd ariannol a ddaw i ran preswylwyr cartrefi gofal, gan, ar yr un pryd, alluogi awdurdodau lleol i gael cynnydd mewn refeniw i'w ddefnyddio tuag at y gofal a'r cymorth y maent yn eu darparu neu'n eu comisiynu, ac at ansawdd y gofal a'r cymorth hwnnw, argymhellir "Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio". O ganlyniad, bydd awdurdodau lleol yn cael cynnydd mewn incwm ffioedd gofal preswyl o tua £8.3 miliwn y flwyddyn gan breswylwyr cartrefi gofal sy'n cael cyfradd sylfaenol pensiwn y wladwriaeth yn unig. Bydd hefyd yn sicrhau y bydd preswylwyr cartrefi gofal sy'n cael pensiynau o'r fath yn gallu cadw, gyda'i gilydd, tua £3.7 miliwn y flwyddyn i'w wario fel y mynnant.

CYNLLUNIAU CYMORTH ARIANNOL

Opsiynau a Manteision

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried dau opsiwn mewn perthynas â gwneud y newidiadau hyn:

- Opsiwn 1 – "gwneud dim" a pheidio â gwneud y rheoliadau diwygio;
- Opsiwn 2 – "gwneud y rheoliadau diwygio" i gyflwyno diystyriadau newydd i'r Rheoliadau Asesiad Ariannol i sicrhau nad yw'r rhai sy'n cael taliadau, a wneir o dan y cynlluniau a enwir, yn gorfod defnyddio'r taliadau hyn tuag at gost eu gofal a'u cymorth. Dyma'r opsiwn a ffefrir.

Cefndir

Mae nifer o gynlluniau iawndal a chymorth ariannol wedi'u sefydlu dros y flwyddyn ddiwethaf y mae angen eu cydnabod yn y Rheoliadau Aseiad Ariannol. Gan amlaf, darnau newydd o ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan lywodraethau eraill yn y DU, neu gan Lywodraeth Cymru, yw'r cynlluniau. Maent yn gwneud taliadau i unigolion neu aelwydydd, neu ddyfarniadau ariannol i unigolion sydd wedi dioddef niwed, camdriniaeth neu anaf ac sydd i gael taliadau i gydnabod eu dioddefaint.

Mae angen i'r cynlluniau cymorth ariannol newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn 2022 gael eu cydnabod mewn deddfwriaeth i sicrhau, pan fo person i gael taliad o dan un o'r cynlluniau a restrir, fod y taliad y maent yn ei gael yn cael ei ddiystyru wrth asesu incwm a/neu gyfalaf fel rhan o'i aseiad ariannol. Nid yw union nifer yr unigolion y bydd y diwygiadau rheoleiddiol hyn yn effeithio arnynt yn hysbys, ond gan fod y cynlluniau cymorth ariannol penodedig sydd â thaliad ariannol uniongyrchol yn rhai sydd wedi'u targedu, amcangyfrifir bod y niferoedd yn fach. Nodir y cynlluniau newydd yn Rhan 1.

Opsiwn 1 – gwneud dim

Byddai'r opsiwn hwn yn golygu na fyddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud i'r mathau o gyfalaf neu incwm y mae rhaid eu diystyru'n llawn yn aseiad ariannol person. Byddai unrhyw daliad cymorth ariannol y mae person yn ei gael o gynlluniau o'r fath yn rhan o'i adnoddau ariannol cymwys ac yn cael ei ystyried yn llawn wrth asesu ei allu i dalu ffi am ofal a chymorth.

- Costau

Ni fyddai unrhyw oblygiadau cost newydd i awdurdodau lleol o dan yr opsiwn hwn. Yn hytrach, byddent yn gallu ystyried swm llawn y taliadau cymorth ariannol hyn mewn aseuadau ariannol. O ganlyniad, mae'n bosibl y byddai person yn gorfod talu ffi uwch am ei ofal a'i gymorth.

- Manteision

Nid yw'r opsiwn hwn yn rhoi unrhyw fudd i unigolion sy'n cael taliadau o'r fath ac yn hytrach byddai'n eu hatal rhag elwa ar y taliadau hyn a wneir i gynorthwyo cadernid ariannol yng nghyd-destun y pwysau presennol ar gostau byw sy'n gysylltiedig â phrisiau Ynni uchel. Yn hytrach, mae'n bosibl y byddai'n ofynnol i berson dalu ffi am y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arno; ffi na fyddai wedi bod yn daladwy fel arall.

Opsiwn 2 – gwneud y rheoliadau diwygio

Byddai'r opsiwn hwn yn gwneud rheoliadau diwygio fel y byddai modd i unrhyw swm o gymorth ariannol y mae person yn ei gael o un o'r cynlluniau a enwir gael ei gadw'n llawn ac ni fyddai'n cael ei ddefnyddio tuag at gost ei ofal a'i gymorth.

- Costau

Ni fyddai unrhyw oblygiadau cost newydd i awdurdodau lleol o dan yr opsiwn hwn.

- Manteision

Byddai'r opsiwn hwn yn diystyru gwerth llawn taliadau cymorth ariannol y mae person yn eu cael o unrhyw un neu ragor o'r cynlluniau a enwir. O ganlyniad, byddai'n elwa'n llawn o'r taliadau a ddyfarnwyd iddo, fel y bwriadwyd.

Casgliad

O ystyried y ffaith mai bwriad taliadau a wneir o dan y cynlluniau cymorth ariannol newydd hyn yw cefnogi cadernid ariannol yng nghyd-destun y pwysau presennol ar gostau byw, argymhellir bod Opsiwn 2 – "gwneud y rheoliadau diwygio" yn briodol ac yn angenrheidiol o dan yr amgylchiadau hyn.

Asesu'r Gystadleuaeth

Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Nac oes
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau lawer iawn mwy nag eraill?	Na fyddai
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau/sefydliadau?	Nac ydy
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu?	Na fyddai
C8: A yw hwn yn sector sy'n gweld newidiadau technolegol cyflym?	Nac ydy
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch?	Na fyddai

Adolygu ar ôl gweithredu

Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i Weinidogion Cymru fonitro swyddogaethau ynddi a gyflawnir gan awdurdodau lleol a chyrrff eraill. Caiff Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i'r cyrrff hyn adrodd am eu dyletswyddau o ran gweithredu'r rheoliadau diwygio hyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith y rheoliadau diwygio ar feysydd megis y Gymraeg, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Pobl Hŷn a Chydraddoldeb.